Cymraeg Clir

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Dylunio Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr

## Beth mae angen i gynghorau ei wneud – canllaw i aelodau cymuned Sipsiwn a Theithwyr

Rhagfyr2025

# Cynnwys


**Am y canllaw yma ........ 3**

**Poblogaeth y Sipsiwn a'r Teithwyr ........ 4**

**Beth sydd ei angen ........ 6**

**Dyluniad safle ........ 9**

**Cyfleusterau'r safle ........ 16**

**Diogelwch Safle ........ 22**

**Safleoedd tramwy ........ 24**

**Mannau stopio dros dro ac wedi eu trafod ........ 25**

**Cymryd rhan ........ 27**

# Am y canllaw yma

Mae'r canllaw yma wedi cael eu gwneud i helpu aelodau o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr i ddeall eu hawliau.

Mae gan deuluoedd yr hawliau i'w cartref eu hunain, gofal iechyd, addysg a lleoedd diogel i chwarae.

**Mae'r canllaw yma yn seiliedig ar nifer o gyfreithiau sy'n cefnogi hawliau Sipsiwn a Theithwyr. Er enghraifft:**

- Deddf Tai (Cymru) 2014
- Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
- Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010



# Poblogaeth y Sipsiwn a'r Teithwyr

Mae'r rhan fwyaf o bobl Sipsiwn a Theithwyr ar hyn o bryd yn byw ar safleoedd mwy parhaol neu'n symud i dai, a elwir yn dai brics a morter.

Mae teithio wedi dod yn anoddach oherwydd diffyg mannau parcio tymor byr cytunedig i gymunedau sy'n symud o gwmpas.

Dim ond tua 3,630 o Sipsiwn a Theithwyr Gwyddelig sy'n byw yng Nghymru. Ar draws Cymru a Lloegr, mae tua 1 o bob 5 yn byw mewn carafanau neu gartrefi symudol neu dros dro eraill. Mae tua 8 o bob 10 o bobl yn byw mewn mathau o dai 'brics a morter'.

Mae'r canllaw yma ar gyfer cymunedau Sipsiwn a Theithwyr er mwyn iddyn nhw ddeall sut y gall cynghorau wneud yn siŵr bod eu safleoedd yn ddiogel i fyw arnyn nhw ac yn ateb anghenion pobl.



**Bydd y canllaw yma yn helpu cynghorau lleol i wneud yn siŵr bod safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn:**

- Wedi'i adeiladu ar dir addas a diogel.
- Cynaliadwy ac wedi eu rheoli'n dda. (Mae cynaliadwy yn meddwl y bydd rhywbeth yn para am amser hir ac nid yn achosi niwed i'r blaned neu bobl).
- Wedi'i gynllunio gan gynnwys cymunedau Sipsiwn a Theithwyr yn llawn.
- Cael yr un safonau, ag ar gyfer mathau eraill o safleoedd cartrefi symudol a thai cymdeithasol.
- Wedi'i gynllunio i gefnogi a datblygu perthynas dda rhwng Sipsiwn a Theithwyr a'r gymuned sefydledig.

**Mae'r canllaw yma ar gyfer safleoedd Sipsiwn a Theithwyr sy'n eiddo i'r cyngor yn unig ac nid safleoedd preifat.**

Pan mae safleoedd cyngor yn cael eu dyrannu, dylai fod gwell mynediad at wasanaethau iechyd ac addysg. Gall hyn arwain at well ansawdd bywyd.

Mae Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw ar safleoedd cyngor hefyd yn fwy tebygol o ddefnyddio gwasanaethau lleol sy'n eu cefnogi.

Mae'r canllaw yma ar gyfer deall sut y dylid dylunio a datblygu safleoedd cyngor i wneud yn siŵr bod yr opsiynau mwyaf addas ar gael i deuluoedd sipsiwn a theithwyr.

# Beth sydd ei angen

Mae’r angen am leiniau ar safleoedd cynghorau lleol yn uwch na’r nifer o leiniau sydd ar gael.

Mae angen lleiniau preswyl parhaol ar draws Cymru, gan gynnwys angen mwy o fannau stopio dros dro a safleoedd trafnidiaeth.



# Y ddyletswydd i ddarparu safleoedd parhaol

Dylai pawb gael cartref diogel i fyw ynddo. P’un a ydy hyn o fewn tai symudol neu dai brics a morter.

Rhaid i gynghorau lleol ddilyn Deddf Tai (Cymru) 2014 i wneud yn siŵr bod anghenion tai Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu hateb yn briodol.

Mae’n ofynnol i gynghorau lleol hefyd ddarparu digon o safleoedd a lleiniau Sipsiwn a Theithwyr i’r rhai sydd ei angen.

Dylai cynghorau lleol hefyd feddwl am weithio gyda chymunedau Sipsiwn a Theithwyr i gefnogi’r gwaith o ddatblygu safleoedd newydd.

Gall darparu'r safleoedd cywir leihau'r risg o wersylloedd sydd heb gael eu hawdurdodi.

Mae adeiladu mwy o safleoedd, boed yn safleoedd cyngor, neu'n dymor byr yn gyfrifoldeb pob cyngor lleol.



# Dyluniad safle

## Maint y safle a'r cynllun

Dylai cynghorau lleol gynnwys aelodau o'r gymuned yn eu hardal i ddeall anghenion teuluoedd ar gyfer safleoedd sipsiwn a theithwyr.

Dydy'r canllaw yma ddim yn gosod rhifau llain ar gyfer safleoedd. Mae'n dibynnu ar anghenion pobl. Ond gall safleoedd llai fod yn haws i'w rheoli ac maen nhw'n fwy tebygol o gael eu ffafrio i deuluoedd.

Bydd angen i gynghorau feddwl am dwf aelwydydd Sipsiwn a Theithwyr yn y dyfodol, fydd efallai angen llain ychwanegol i fyw arno yn y dyfodol.

**Bydd yn rhaid meddwl am nifer o bethau wrth benderfynu ar gynllun y safle. Mae'r rhain yn cynnwys:**

- Nifer y teuluoedd.
- Math a lleoliad y gwasanaethau sydd eu hangen.
- Y tir a'r ardal.

Dylai preswylwyr fod yn rhan o’r penderfyniadau ar y dyluniadau.

Mae preifatrwydd a diogelwch mor bwysig i breswylwyr. Ond mae hefyd yn bwysig gwneud yn siŵr bod ymdeimlad o gymuned.

Mae gwahanol fathau o gynllun. Mae angen i’r cyngor feddwl am bob math a pha rai allai fod yn well.

Bydd darparu coed yn cadw ardal y safle wedi’i ddiffinio’n glir. Bydd hefyd yn helpu i gadw safleoedd yn breifat. Ond mae angen i’r coed o amgylch ffiniau safle (lle mae’r safle yn dod i ben) fod 3 metr i ffwrdd o lain oherwydd perygl tân.

## Safle rhentu

Dylai cynghorau lleol edrych i weld a oes unrhyw aelodau o’r gymuned wedi cael dweud eu barn am leoliad y safle.

Mae’n bwysig gwneud yn siŵr bod y gymuned yn teimlo eu bod yn cael eu clywed a’u bod yn rhan o wneud penderfyniadau.

Efallai y bydd gan Sipsiwn a Theithwyr gysylltiadau hirdymor ag ardal ac yn dymuno aros yno. Dylai cynghorau feddwl am y safbwyntiau yma.

**Wrth ddod o hyd i leoliad addas ar gyfer safle, dylai cynghorau lleol feddwl am bethau fel:**

- Mynediad diogel i ffyrdd cyhoeddus a llwybrau troed sy'n arwain i'r safle. Mae cyrraedd trafnidiaeth gyhoeddus yn bwysig hefyd.
- Os yw'r tir yn ddiogel ac yn dda ar gyfer y dyfodol cyn adeiladu safle.
- Dylai unrhyw safle fod ar gael am o leiaf 21 mlynedd.
- Mae gofalu am y safle mor bwysig.
- Perygl o lifogydd.
- Cyflwr y tir
- Cyrraedd gwasanaethau lleol fel ysgolion, meddygon a siopau.
- Os bydd safle mewn ardal gefn gwlad, mae angen cynllunio. Er enghraifft, dod ag ymwelwyr iechyd ar y safle yn rheolaidd.
- Mae diogelwch preswylwyr, gan gynnwys eu plant, yn hanfodol. Ni ddylid gosod safleoedd wrth ymyl unrhyw beth a all achosi niwed.  Er enghraifft, afonydd neu gamlesi, oni bai eu bod wedi'u cynllunio.

**Wrth ddod o hyd i leoliad addas ar gyfer safle, dylai cynghorau lleol feddwl am bethau fel:**

- Dylid meddwl am safleoedd wrth ymyl safleoedd diwydiannol neu ffyrdd prysur yn ofalus. Efallai y bydd angen edrych ar sŵn ac ansawdd aer.

- Rhaid darparu dŵr, trydan, carthffosiaeth, draenio a gwaredu biniau ar bob safle.

- Dylai ffyrdd fod yn ddigon llydan i ganiatáu mynediad i gartrefi symudol ar gerbydau llwythwr isel. Gan gynnwys lympiau cyflymder ac arwyddion i gadw plant yn ddiogel.

- Dylai'r safle fod yn agos at y gymuned leol ar lwybr troed lle bo modd.

- Dylai pob llain gael giât y gellir ei gloi fel y gall preswylwyr ddiogelu eu lleiniau eu hunain.

- Dylai pob llain allu cael bloc amwynder. Dyna gegin ac ystafell ymolchi, gyda lle i gartref symudol, carafán deithiol a pharcio ar gyfer dau gerbyd.

## Dylai lleiniau ddarparu:

- Bloc amwynder sy’n gysylltiedig â chyflenwad dŵr, trydan a gwasanaethau eraill.
- Cynwysyddion ar gyfer gwastraff domestig. Lle mae biniau’n cael eu darparu, rhaid iddyn nhwt fod mewn siop biniau.
- Pwyntiau cysylltu trydan.
- Ffordd o osod  cartrefi symudol yn ddiogel ar y llain yn ystod gwyntoedd uchel, fel cylchoedd dur wedi’u gosod mewn concrit.
- Cysylltu â draeniau a systemau carthffosiaeth.
- Lle i sychu dillad.

## Ardaloedd llawr caled

Rhaid i bob llain sefyll ar sylfaen goncrit neu galed.

# Bloc amwynder

Dyma ardal sy'n darparu cyfleusterau i bobl eu defnyddio.

Bydd y cyngor lleol yn gyfrifol am unrhyw waith trwsio ar y blociau amwynder

Dylai blociau amwynder gynnwys toiled ar wahân gyda sinc.

Mae baddonau gyda chawodydd uwchben yn cael eu hargymell hefyd. Dylai'r bloc hefyd gynnwys storfa, cegin ac ardal gegin. Hefyd, gall gynnwys ardal fwyta fach i'r teulu.

Dylai cynghorau lleol siarad â thrigolion y safle cyn gorffen cynlluniau bloc amwynder.

Efallai y byddai'n well gan breswylwyr gawodydd na baddonau neu gael ystafelloedd ychydig o faint gwahanol.

Bydd angen i gynghorau lleol wneud newidiadau i drigolion anabl o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Dylai blociau amwynder gael digon o gyflenwad dŵr gan gynnwys dŵr poeth.

Dylid cynnwys plymio ar gyfer peiriant golchi neu sychwr dillad a phwyntiau trydanol ar gyfer popty a pheiriant golchi neu sychwr. Dylid darparu socedi trydanol ychwanegol trwy'r bloc amwynder.

Dylai'r ardal goginio fod â digon o le storio.

Dylai pob ystafell fod â system wresogi sy'n caniatáu rheoli tymheredd.

Rhaid i socedi trydanol a ffitiadau a gosodiadau eraill fod yn ddiogel I blant. Er enghraifft, topiau gwaith crwn.

Rhaid i bob cartref symudol fod wedi'i wahanu heb fod yn llai na 6 metr o unrhyw gartref symudol arall. Mae hyn ar gyfer diogelwch tân a phreifatrwydd.



# Cyfleusterau'r safle

## Ardal chwarae i blant

Mae gofod allanol yn bwysig i blant. Yn aml mae llai o le y tu mewn i gartrefi symudol.

Dylai plant a phobl ifanc gael dweud eu dweud am beth sy'n digwydd ar safle.

Bydd plant sy'n byw ar safle yn gallu defnyddio ardaloedd chwarae presennol. Ond, lle nad ydy hyn yn bosibl, dylai safleoedd gynnwys ardal chwarae.

Dylai ardaloedd chwarae fod i ffwrdd o draffig. Dylent hefyd fod wedi'u ffensio, gyda waliau neu wedi eu hamgáu. Dylai ardaloedd chwarae fod wedi'u goleuo'n dda ac, lle mae'n bosibl, ardaloedd di-gŵn.

Dylid cynnwys lloches ieuenctid neu fath arall o seddi hefyd. Gall ardaloedd chwarae gynnwys mannau agored ac offer sefydlog.

## Cyfleusterau cymunedol

Ar safleoedd mwy mae adeilad sydd yn cael ei rannu yn bwysig. Os nad ydy hyn yn bosibl, gellid defnyddio uned symudol.

Neu dylid defnyddio cyfleusterau cymunedol gerllaw lle bo'n bosibl.

## Rheolwr safle neu warden

Mae swyddfa safle yn bwysig, yn enwedig ar safleoedd mwy. Dylai'r swyddfa fod yn agos at fynedfa'r safle

Os oes gan reolwr safle neu warden - sy'n gofalu am y safle eu llain eu hunain i fyw ar y safle, dylid rhoi swyddfa safle ar wahân iddyn nhw.



## Goleuadau cyhoeddus

Rhaid i ffyrdd, llwybrau troed a phalmentydd fod wedi’u goleuo’n dda rhwng y cyfnos a’r wawr.

## Gofod gweithio

Mae angen i gynghorau feddwl am gerbydau gwaith teuluoedd wrth ddylunio safle.

Efallai y bydd cynghorau lleol eisiau meddwl am ofod gweithio’ penodol fel rhan o’r safle neu gerllaw.

Ni ddylid stopiol preswylwyr rhag gwneud gwaith yn y cartref os nad yw’n berygl.

## Addurniadau neu ddyluniad

Gallai cynnwys y dyluniadau hyn ar safle fod yn ffordd i drigolion ddathlu eu teuluoedd, eu diwylliannau a'u treftadaeth.

## Cyflenwad dŵr

Rhaid i bob llain fod â chyflenwad dŵr prif gyflenwad sy'n addas i'w yfed ac i ateb anghenion preswylwyr.

Dylid osgoi tapiau sydd yn cael eu rhannu lle mae'n bosibl i helpu trigolion i gael eu bilio am eu defnydd dŵr eu hunain.

Os bydd tapiau sydd yn cael eu rhannu yn cael eu rhoi i mewn, bydd angen i'r cyngor dalu am y cyflenwad. Neu mae angen gwneud cytundeb.

## Cyflenwi a storio nwy

Rhaid i bob gwasanaeth nwy ddilyn y deddfau a'r safonau sydd eu hangen. Rhaid i'r holl gyfleuster storio a ddarperir ar gyfer silindrau nwy fodloni deddfau iechyd a diogelwch.

Dylai cynghorau lleol geisio gwneud yn siŵr bod safleoedd wedi'u cysylltu â gwasanaethau prif gyflenwad uniongyrchol pan mae'n bosibl. Mae hyn yn fwy diogel a gall helpu i osgoi costau uwch poteli nwy a chostau uwch trwy fesuryddion rhagdalu. Mae'r rhain yn fesuryddion lle rydych chi'n talu cyn i chi ddefnyddio nwy neu drydan.

## Blychau post

Dylai preswylwyr gael blwch post diogel y gellir ei agor gyda eu allwedd eu hunain.

## Tir pori

Gall cynghorau lleol geisio darparu tir pori i geffylau ger eu safleoedd, lle mae hynny'n bosibl. Efallai y byddan nhw'n codi ffi i breswylwyr am ei ddefnyddio. Dylai'r tir fod â ffin a gatiau diogel.

Dylai cynghorau lleol ystyried cynnig unrhyw dir sydd ar gael iddyn nhw ar gyfer prydlesi pori tymor byr lle mae hynny'n bosibl.

## Cyfathrebiadau

Mae cael defnydd o'r rhyngrwyd a band eang yn bwysig mewn bywyd modern. Dylai cynghorau geisio gwneud yn siŵr bod gan bob safle gysylltiadau rhyngrwyd a ffôn.



# Diogelwch Safle

Mae'r adran yma am beth mae angen i gynghorau lleol ei wneud i wneud yn siŵr bod eu safleoedd yn ddiogel. Mae hefyd yn cynnwys cadw preswylwyr yn ddiogel.

## Iechyd a diogelwch

Rhaid i'r cyngor lleol wneud yn siŵr bod yr holl offer diogelwch tân yn ddiogel ac yn bodloni'r rheolau cywir.

Dylid ei archwilio'n aml.

Rhaid i reolwyr safle ysgrifennu'r archwiliadau i lawr.

Dylai'r archwiliadau hyn ddigwydd bob blwyddyn.



## Trosedd

Rhaid i gynghorau lleol gydbwyso'r angen i drigolion deimlo'n ddiogel ar y safle heb deimlo eu bod nhw wedi eu cau allan.

Dylid meddwl am CCTV (camerâu teledu cylch caeedig) ar safleoedd er diogelwch  i breswylwyr. Ond dylai fod yn parchu preifatrwydd.

## Diogelwch tân

Rhaid gosod cartrefi symudol mewn ffordd a fydd yn lleihau'r risg o dân yn lledaenu rhyngddyn nhw. Dylai'r pellter agosaf rhwng pob carafán fod yn 6 metr. Os oes digon o bellter, gall trigolion aros yn eu carafanau os bydd tân yn torri allan yn rhywle arall ar y safle.

Lle na all y gwahanu hwnnw ddigwydd, bydd angen i drigolion adael eu carafanau os bydd tân yn torri allan yn rhywle arall ar y safle.

Rhaid i breswylwyr fod yn ymwybodol bod ganddyn nhw gyfrifoldeb i stopio tanau rhag digwydd. Dylen nhw dderbyn cyngor ar sut i wneud hyn.

# Safleoedd tramwy

Mae’r rhain yn safle arhosiad byr y gallwch aros arnyn nhw hyd at 3 mis.

Dylai safleoedd tramwy ddilyn yr un rheolau â safleoedd sipsiwn a theithwyr parhaol. Oni nodwyd.

Dylai cynghorau lleol geisio eu darparu lle bo’n bosibl i gefnogi teuluoedd sy’n teithio.

## Cynllun a mynediad

Gall maint y llain fod yn llai ar safleoedd tramwy. Dylai lleiniau allu cartrefu 2 garafán deithiol a 2 le parcio.

Bydd cynllun safleoedd tramwy yn wahanol i safleoedd parhaol oherwydd diffyg blociau amwynder. Bydd safleoedd tramwy yn darparu toiledau a blociau cawod sydd yn cael eu rhannu.

# Mannau stopio dros dro ac wedi eu trafod

Mae’r rhain yn lleoedd parcio tymor byr sydd wedi cael eu cytuno.

Mae lleiniau cynghorau lleol yn well na lleoedd tymor byr fel ateb hirdymor.

Ond gall Llywodraeth Cymru roi cyllid i’r cyngor ar gyfer mannau stopio tymor byr a chytunedig, os oes angen.

Dylai’r lleoedd tymor byr yma fod ar gyfer aros am hyd at 28 diwrnod yn unig.

## Lleoliad safleoedd

Dylai’r lleoedd hyn fod yn ddiogel a chael mynediad da i ffyrdd.

Dylai’r gwasanaethau brys allu mynd i mewn i’r lleoedd hyn yn hawdd bob amser.

## Cyflenwadau

Dylid darparu cyflenwad dŵr oer a phwynt gwaredu carthffosiaeth.

Dylid darparu toiledau cludadwy. Argymhellir cawodydd hefyd.

Dylid darparu cyfleusterau casglu biniau hefyd.

# Cymryd rhan

**Mae gennych hawl i gymryd rhan.**

Mae cynghorau lleol eisiau gweithio gyda phobl Sipsiwn a Theithwyr wrth gynllunio a gwella safleoedd.

**Mae gan blant a phobl ifanc hawliau hefyd.**

Dylid gofyn iddyn nhw beth maen nhw'n ei feddwl am eu cartrefi.

**Bydd cynghorau yn gwrando.**

Byddan nhw'n dod o hyd i'r ffyrdd gorau o siarad â chi, fel ymweliadau, cyfarfodydd neu ddefnyddio pobl ddibynadwy.

Maen nhw eisiau gwneud yn siŵr bod pawb yn deall ac yn teimlo eu bod wedi'u cynnwys.

**Mae eich llais yn bwysig.**

Gyda'ch gilydd, gallwch chi a'r cyngor ddylunio cartrefi sy'n ddiogel, yn deg ac yn iawn i'ch teulu.